HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# HOCI CYMRU
# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## 2022–2023


HOCKEY
©Irfon Bennett

# CYNNWYS


**NEGES Y CADEIRYDD** . . . . 4

**CYFLWYNIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL** . . . . 5

**YMGYSYLLTU** . . . . 6

- Prosiect Treftadaeth Genedlaethol Hoci Cymru . . . . 7
- Gwobrau Ysgolion Hoci Rhithwir Cymru . . . . 9
- Dadansoddiad Clybiau . . . . 10
- Dadansoddiad Ysgolion . . . . 11
- Data Arolwg Chwaraeon Ysgol . . . . 11
- Hoci Cerdded . . . . 12
- Llysgenhadon Hoci Ifanc . . . . 13
- Hooked On Hoci . . . . 14

**CYFLAWNI POTENSIAL** . . . . 15

- Cyflawni Uchafbwyntiau Posibl . . . . 16
- Hoci Prydain Fawr . . . . 18
- Dynion a Merched Hŷn . . . . 19
- Cerrig Milltir
- Dynion a Merched Dan 23 . . . . 22
- Llwybr . . . . 23
- Grwpiau Oedran Cenedlaethol . . . . 24
- Staff Cefnogi Perfformiad . . . . 25

**AMGYLCHEDDAU LLEWYRCHUS** . . . . 26

- Cymdeithas Dyfarnwyr Hoci Cymru . . . . 27
- Cyfleusterau . . . . 29

**CYFRANOGIAD** . . . . 30

- Meistri Cymru – Dynion . . . . 31
- Meistri Cymru – Merched . . . . 33
- Cystadlaethau 2023/2023 . . . . 34

**PARTNERIAETHAU** . . . . 36

- Partneriaid . . . . 37
- Cyfeillion Hoci Cymru . . . . 38

**ARIANNOL** . . . . 39

- Ariannol 2022–2023 . . . . 40

# NEGES Y CADEIRYDD

**Gydgefnogwyr hoci!**

**Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi'i llenwi ag eiliadau rhyfeddol wrth i ni weithio'n ddiflino i gynyddu cyfranogiad a sicrhau llwyddiant ar y llwyfannau mwyaf. Hoffwn ddiolch o galon i bawb a gymerodd ran: ein gwirfoddolwyr ymroddedig, partneriaid amhrisiadwy, a phob unigolyn sy'n gysylltiedig â thwf hoci yng Nghymru.**

Rydyn ni wedi gweld ein clybiau a'n chwaraewyr ni o Gymru yn mentro i gynghreiriau a chystadlaethau newydd, ein clybiau iau yn ffynnu, a'n sgwadiau rhyngwladol hŷn yn cyrraedd uchelfannau newydd. Mae eu perfformiadau cadarn yng Ngemau Cymanwlad Birmingham 2022 a'u presenoldeb cynyddol yng ngharfan Prydain Fawr, ar lwybrau Prydain Fawr, ac yn y Gynghrair Broffesiynol wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig i bawb yn y gêm.

Mae ein Llysgenhadon Ifanc ni wedi ennill cydnabyddiaeth ledled Ewrop am y rhaglen eithriadol maent wedi'i chreu. Roedd hefyd yn wirioneddol gyfareddol clywed y straeon personol a rannwyd yn ystod y Gwobrau Ysgolion Rhithwir eleni.

Mae ein tîm Meistri'n parhau i ragori ar y llwyfan byd-eang, ac mae'n wirioneddol wych gweld cyfranogwyr o bob grŵp oedran yn teithio ar draws y byd i gystadlu. Mae ein camp ni'n dyst i'w hapêl a'i chynhwysiant cyffredinol.

Heb os, un o fy uchafbwyntiau perfformiad i oedd gweld ein tîm Dynion Hŷn ni'n cystadlu gyda sgil a phenderfyniad yng Nghwpan y Byd yn India. Daeth ein tîm Merched Hŷn yn hynod agos at gymhwyso, a dylai eu cyflawniadau hwythau gael sylw. Hoffwn ddiolch yn bersonol i Lywodraeth Cymru a Chymru Fyd-eang am eu cefnogaeth ddiwyro drwy gydol ein hymgyrch yng Nghwpan y Byd, yn ogystal ag i bawb a gyfrannodd yn hael i helpu ein carfan ni i gyrraedd India.

Hoffwn hefyd gydnabod Ria Burrage-Male, a ymddiswyddodd fel Prif Swyddog Gweithredol yn gynharach eleni. Mae ei harweinyddiaeth wedi gyrru ein sefydliad ni yn ei flaen mewn sawl maes, ac ymunaf i gydnabod ei llwyddiannau a dymuno'r gorau iddi yn ei hymdrechion yn y dyfodol.

Tra rydw i'n adlewyrchu ar flwyddyn eithriadol, gwnaf hynny gyda theimlad o dristwch, gan mai hon fydd fy neges olaf i cyn camu i lawr fel Cyfarwyddwr a Chadeirydd ar ôl saith mlynedd o wirfoddoli ar fwrdd Hoci Cymru. Drwy gydol y cyfnod hwn, rydyn ni wedi wynebu llawer o heriau, ac wrth i ni gychwyn ar oes newydd o newidiadau cyllido, rydyn ni'n parhau i fod yn gadarn yn ein hymdrechion i roi ein camp ar y blaen wrth ddatblygu strategaeth sy'n cyd-fynd â'r model newydd hwn.

Wrth i'n teulu hoci ni symud ymlaen, rydw i hefyd eisiau mynegi fy niolch i Paul Whapham, ein Prif Swyddog Gweithredol newydd, sydd wedi dechrau arni o ddifrif yn agored ac yn llawn egni. Mae'r tîm yn fwrlwm o gyffro, a gobeithio eich bod chi wedi cael y cyfle i rannu eich barn yn ystod ei siwrnai o amgylch y clybiau ledled y wlad.

Wrth i fy siwrnai i fy hun ddirwyn i ben, rydw i'n hynod ddiolchgar am y cyfle, yr ymddiriedaeth a'r gefnogaeth rydw i wedi'u cael. Rydyn ni i gyd yn rhannu angerdd aruthrol dros ein camp, ac rydw i'n edrych ymlaen yn eiddgar at lwyddiant parhaus yn y dyfodol wrth i'n tîm newydd ni fynd â ni ymlaen.

**Conrad Funnell**
Cadeirydd



# CYFLWYNIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

**Rydw i wrth fy modd yn bod yn Brif Swyddog Gweithredol newydd Hoci Cymru ac yn ystod fy amser byr yn y rôl, mae wedi bod yn bleser mawr cyfarfod â chymaint o bobl gyfeillgar ac angerddol ar draws ein haelodaeth.**

Roedd 2022/23 yn flwyddyn heriol ond hanesyddol i'r gamp yng Nghymru.

Ym mis Ionawr cafodd tîm Dynion Hŷn Cymru gyfle i gystadlu ar y llwyfan byd-eang yn ein Cwpan y Byd cyntaf erioed, yn India. Yn dilyn ymgyrch gymhwyso gartref anhygoel, dim ond drwy gefnogaeth Llywodraeth Cymru a'n prif bartner masnachol ni, Astudio yng Nghymru, oedd y cyfle i gystadlu mewn digwyddiad mor fawreddog yn bosibl.

Ym mis Ebrill, sicrhaodd tîm Hoci Dynion Caerdydd a'r Met ddyrchafiad i'r Uwch Adran ar ôl tymor anodd ond argyhoeddiadol. Camp wych a'r tymor nesaf fydd y tro cyntaf erioed i dîm o ddynion o Gymru gystadlu ar y lefel hon. Mae gemau cyffrous i ddod.

Dechreuodd y tymor gyda Dynion Dros 70 Oed Cymru yn creu hanes drwy ennill aur yng Nghwpan y Byd Hoci'r Meistri Dros 70 yn Tokyo 2022 – y tro cyntaf i unrhyw dîm Meistri o Gymru hawlio teitl Pencampwriaeth y Byd.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae ein gwirfoddolwyr ni, ein teulu hoci a'n staff yn parhau i weithio'n hynod o galed i sicrhau bod ein camp yn cael ei chyflwyno ar draws cymunedau ac rydym yn hynod ddiolchgar i bawb sy'n chwarae rhan weithredol yn y byd hoci. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi cyfle i ni rannu ein cyflawniadau a chydnabod yr effaith y mae ysgolion, llysgenhadon ifanc, clybiau, dyfarnwyr a swyddogion, a'n rhaglen meistri anhygoel yn ei chael ar gymunedau lleol a rhyngwladol.

Er gwaethaf llwyddiant y 12 mis diwethaf, mae'r gamp yn parhau i fod yng nghamau olaf yr adferiad ar ôl y pandemig ac eto roedd heriau newydd a sylweddol o'n blaen, gyda'r argyfwng costau byw a gostyngiad mewn incwm gwario i gyd yn bryder gwirioneddol i'n haelodau. Mae'n bwysig bod yr aelodaeth yn deall yr heriau ariannol sy'n ein hwynebu ni fel sefydliad wrth i ni addasu i effaith model cyllido newydd Chwaraeon Cymru.

Rydw i wedi cymryd y rôl hon gyda dealltwriaeth lawn o'r heriau presennol, ond wir yn credu, gyda chefnogaeth yr aelodaeth a'n partneriaid ehangach, bod gennym gyfle gwirioneddol i foderneiddio a datblygu'r gamp, gan sicrhau nad yw'r llwyddiannau hanesyddol hyn yn rhai unigryw.

Yn ystod y 12 mis nesaf byddaf yn parhau i ymgynghori â'r aelodaeth wrth i ni gychwyn ar strategaeth newydd, gan adeiladu ar lwyddiant diweddar a chreu cyfleoedd gwahanol i 'gael ffyn mewn dwylo' a galluogi pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol i gymryd rhan a chystadlu yn ein camp.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i'r Prif Swyddog Gweithredol sydd wedi gadael, Ria Burrage-Male. Gadawodd Ria y sefydliad ym mis Mawrth ar ôl chwarae rhan arwyddocaol fel chwaraewr, cyfarwyddwr bwrdd, aelod o staff ac, yn fwy diweddar, Prif Swyddog Gweithredol. Sicrhaodd arweinyddiaeth Ria fod y gamp yn dod drwy'r pandemig ac yn gallu ailsefydlu ei hun ledled Cymru. Roedd Ria yn llais allweddol yn y sector chwaraeon, gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid i sicrhau bod pwysigrwydd ein camp ni'n cael ei gydnabod yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

**Paul Whapham**
Prif Swyddog Gweithredol



# YMGYSYLLTU






# PROSIECT TREFTADAETH GENEDLAETHOL HOCI CYMRU

**Rydym yn ffodus iawn bod y Gronfa Dreftadaeth wedi ein cefnogi ni gyda gwerth 2 flynedd o gyllid i gynnal Prosiect Treftadaeth Genedlaethol Hoci Cymru.**

Mae gan y Prosiect Treftadaeth Genedlaethol 4 elfen..

**1. Addysg ysgolion a digideiddio:**

Byddwn yn addysgu ac yn gweithio gydag ysgolion ar sut gallant ddigideiddio data hanesyddol a chael mynediad at yr wybodaeth hon ar-lein. Rydyn ni'n gweithio gyda Casgliad y Werin Cymru i ddigideiddio cofnodion, tlysau, lluniau, rhaglenni gemau ac offer ac ati fel ein bod yn gallu trysori'r eitemau hyn am flynyddoedd i ddod! Rydyn ni hefyd yn gweithio gydag ymgynghorydd, Gethin Thomas o Brifysgol Bangor, a Steve Thomas o'r Youth Sport Trust i greu adnodd trawsgwricwlaidd y gall athrawon ei ddefnyddio i addysgu myfyrwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gan ddefnyddio hoci yn unol â'r cwricwlwm newydd i Gymru. Er mwyn sicrhau bod y darn hwn o'r cwricwlwm yn cael ei ddefnyddio mewn addysg, byddwn yn ffurfio gweithgor ysgolion lle gall athrawon a myfyrwyr ein helpu ni i ddatblygu'r adnoddau hyn am genedlaethau i ddod.

**2. Ymgysylltu â Chlybiau:**

Byddwn yn datblygu gweithgor clybiau i arwain yr ymgysylltu ac adrodd straeon hanesyddol ein clybiau ni yng Nghymru. Mae gan bob clwb stori unigryw o ran sut y cyrhaeddodd ble mae heddiw, ac rydyn ni'n dymuno rhannu hyn a thynnu sylw at ein clybiau hoci cyntaf un yma yng Nghymru a datblygiad y gamp rydyn ni i gyd mor hoff ohoni.

**3. Glanhau data:**

Rydyn ni'n hynod ffodus o fod â dau hanesydd hoci gwirfoddol, Phil Bailey a Steve Knight, sy'n gweithio'n ddiflino i sicrhau bod ein cofnodion yn gyflawn ac yn fanwl gywir. Yn anffodus, nid oes gennym gofnodion cyflawn eto, felly elfen arall o'r prosiect hwn yw'r cymorth a ddarperir i gwblhau'r broses glanhau data hon drwy weithio gyda'r Amgueddfa Hoci, Cyrff Rheoli Hoci Cenedlaethol eraill ar draws y Byd, y Ffederasiwn Hoci Rhyngwladol, Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd i ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd arnom ei hangen. Rydyn ni hefyd yn gofyn, os oes gan unrhyw gyn-athletwyr unrhyw gofnodion personol o'u gyrfa chwarae, unrhyw adroddiadau gemau, rhaglenni, neu atgof o'u hamser yn chwarae dros Gymru, eu bod yn camu ymlaen â'r wybodaeth hon a'n helpu i gwblhau ein cofnodion. Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth a allai fod o fudd, cysylltwch â'n haneswyr hoci ni ar hockeyhistory@hockeywales.org.uk

**4. Creu ein rhaglen ryngwladol i gyn-athletwyr:**

Mae ein hathletwyr ni'n rhan enfawr o Hoci Cymru! Rydyn ni eisiau dathlu ein gorffennol a llwyddiant yr athletwyr sydd wedi ymrwymo cymaint i gynrychioli eu gwlad. Oherwydd hyn rydyn ni'n gwobrwyo ein cyn-athletwyr rhyngwladol gyda'u cap rhyngwladol cyntaf!



**Croesawyd 49 o gyn-athletwyr i Gaerdydd ym mis Gorffennaf 2022 ar gyfer y digwyddiad dathliad capiau cyntaf!**

Hyd yma rydyn ni wedi llwyddo i roi eu cap cyntaf i 62 o gyn-athletwyr o'u cyfnod yn cynrychioli Cymru, ac mae'r cyn-athletwyr hyn yn cynnwys y canlynol::

Amanda Roberts
Andy Rhys-Jones
Angela Ninian-John
Ann Bevan
Anne Ellis
Anthony Colclough
Beti Wyn Burnell
Beti Wyn Williams
Bryn Williams
Caroline Jones
Carys Hopkins
David Thomas
Eiranwen Thomas
Ella Rafferty
Emma Etheridge
Emma James
Helen Williams
Iris Davies
Jackie Williams
Jacqui Loxam
Janet Hopkin
Jean Satterley
Jo Laity
Kate Morgan
Laura Sugar
Lynda Hughes
Lynne Thomas
Mair Evans
Margaret Medlow
Margaret Thomas
Marita Louis
Mark Lewis
Mary Bainbridge
Mary Richards
Michael Hannon
Michelle Thomas
Mickey Colclough
Nia Fowler
Owen Griffiths-Jones
Paul Edwards
Peter Marsh
Pippa Jones
Rae Ellis
Rebecca Heywood
Rebecca Treharne
Ria Burrage-Male
Richard Markham
Roger Sutton
Sheila Gray Williams
Sheila Morrow
Sian Fowler
Sian Griffiths
Sian Trotman
Sophie Trigg-Turner
Steve Cronin
Sue Merry
Susan Jackson
Susan James
Tim Whiteway
Tony Lages
Walid Abdo
Wendy Banks

*Byddwn yn cynnal y digwyddiad dathliad capiau nesaf ar 26 Awst 2023 – mwy o fanylion i ddilyn!*

Prosiect a Ariennir gan:

Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth
Made possible with Heritage Fund

Partneriaid y Prosiect:

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

THE HOCKEY museum

YOUTH SPORT TRUST

Ysgolion Cefnogi ac Ymgysylltiedig:



# GWOBRAU YSGOLION RHITHWIR HOCI CYMRU

**Roedd Hoci Cymru yn falch iawn o gynnal ei Wobrau Ysgolion Rhithwir cyntaf yn 2022/23.**

Roeddem yn cydnabod pwysigrwydd ysgolion yn natblygiad Hoci yng Nghymru ac roeddem eisiau dathlu'r unigolion, yr ysgolion, y clybiau a'r cymunedau sy'n gwneud y twf hwn yn bosibl. Heb eu hymrwymiad parhaus hwy, ni fyddai llawer o bobl ifanc yn cael y cyfle i chwarae hoci.

O fewn y gwobrau hyn buom hefyd yn dathlu datblygiad chwaraewyr o fewn ysgolion cynradd ac uwchradd oherwydd efallai mai hwy fydd ein chwaraewyr rhyngwladol ni yn y dyfodol.

| CATEGORÏAU: | ENILLWYR: |
|---|---|
| Ysgol Gynradd y Flwyddyn | Ysgol Gynradd Llanisien Fach |
| Ysgol Uwchradd y Flwyddyn | Ysgol Bro Morgannwg, |
| Athrawes Ysgol Gynradd y Flwyddyn | Elisabeth Tomkinson, Ysgol Gynradd Waun Fawr |
| Athrawes Ysgol Uwchradd y Flwyddyn | Carwen Richards, Ysgol Bro Pedr |
| Gwobr Ymgysylltu Ysgol - Clwb | Clwb Hoci Caerdydd a'r Met ac Ysgol Uwchradd Caerdydd |
| Llysgennad Hoci Ifanc y Flwyddyn | Rhys Culley, Ysgol Syr Thomas Jones, Ynys Môn |
| Gwobr Ymgysylltu Awdurdod Lleol | Chwaraeon Caerffili |
| Cyfranogwr y Flwyddyn Ysgol Gynradd | Nahla Blake, Ysgol Gynradd Llanisien Fach |
| Cyfranogwr y Flwyddyn Ysgol Uwchradd | Darcey Holdcroft, Ysgol St Martins, Caerffili |

# DADANSODDIAD CLYBIAU

## AELODAETH YN AMRYWIO O 4 I 82 OED

## % AELODAETH YNG NGHYMRU

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU






| CYFANSWM AELODAETH (5 UCHAF) | SDYNION HŶN (5 UCHAF) | SMERCHED HŶN (5 UCHAF) | BECHGYN IAU (5 UCHAF) | MERCHED IAU (5 UCHAF) |
|---|---|---|---|---|
| CH Abertawe | Caerdydd a'r Met | Prifysgol Caerdydd | Eglwys Newydd | Abertawe |
| Eglwys Newydd | Abertawe | Abertawe | Abertawe | Penarth |
| Gwent | Prifysgol Caerdydd | Caerdydd a'r Met | Gwent | Eglwys Newydd |
| Prifysgol Caerdydd | Eglwys Newydd | Meddygon Caerdydd | Eirias | CH Merched Pwllheli |
| Caerdydd a'r Met | Penarth | Penarth | Caerdydd a'r Met | Gwent |


*Sylwch: Mae '5 uchaf' yn cyfeirio at y mwyafrif o aelodau.*

## CLYBIAU'N DARPARU AR GYFER DOSBARTHIADAU AELODAETH

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU


| | NIFER Y CLUBIAU | % Y CLUBIAU |
|---|---|---|
| DYNION HŶN | 26 | 39 |
| MERCHED HŶN | 54 | 81 |
| BECHGYN IAU | 41 | 61 |
| MERCHED IAU | 53 | 79 |
| POB DOSBARTH | 12 | 18 |

## CYFANSYMIAU AELODAETH




- Clybiau - Wedi Cynyddu
- Clybiau - Wedi Gostwng
- Clybiau - Dim Newid


## MAINT Y NEWIDIADAU (CYNYDDU AELODAETH)




- 1 i 10
- 11 i 30
- 31 i 35
- 51 i 70
- 71 i 90
- 91+

*Sylwer: Cyfran y clybiau sydd wedi cynyddu mewn aelodaeth ac o faint. E.e. os yw clwb wedi cynyddu o 1 i 10 aelod ac ati.*


## GRADDFA NEWIDIADAU (GOSTYNGIAD AELODAETH)




- 1 i 10
- 11 i 30
- 31 i 35
- 51 i 70
- 71 i 90
- 91+

*Sylwer: Nifer y clybiau sydd wedi gostwng mewn aelodaeth ac o faint.*

# DADANSODDIAD YSGOLION




# DATA'R AROLWG CHWARAEON YSGOL

***Yn ôl Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru 2022 mae gan***

**16,996**
o ddisgyblion alw am chwarae hoci ond nid ydynt yn cymryd rhan yn y gamp ar hyn o bryd

**2%**
o ddisgyblion ledled ysgolion Cymru yn chwarae hoci unwaith yr wythnos!

**Roedd y cyfranogiad ar gyfer hoci ar ei uchaf ymhlith**
**MERCHED BLWYDDYN 6**
O blith y rhai a gwblhaodd yr arolwg, roedd **12%** o bobl wedi cymryd rhan mewn hoci yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n ostyngiad o **23%** yn 2018

Roedd Hoci Maes fwyaf poblogaidd yng **Ngheredigion,** lle cymerodd **24%** o ddisgyblion ran mewn hoci o leiaf unwaith

Roedd y nifer uchaf o gyfranogwyr hoci maes yng **Nghaerdydd,** lle mae **749** o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg yn cymryd rhan mewn lleoliad cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf

***Chwaraewyr hoci yn ôl prydau ysgol am ddim***

| FSM1 | FSM2 | FSM3 | FSM4 |
|---|---|---|---|
| 16% | 13% | 10% | 9% |

Nid oes gan
**82%**
o'r disgyblion hynny nad ydynt yn chwarae hoci ar hyn o bryd unrhyw ddiddordeb/dim galw o ran dechrau chwarae hoci

O gymharu, byddai **6%** o ddisgyblion categori **FSM4** yn hoffi chwarae hoci ond heb gael y cyfle

Nid oes gan **90%** o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ac a oedd wedi chwarae hoci nam corfforol na nam dysgu, roedd gan **6%** nam corfforol neu nam dysgu

***Gostyngiad mawr yn hoci maes y Bechgyn wrth iddyn nhw drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd - gan dynnu sylw at y diwylliant / traddodiad / diffyg cyfle nad yw hoci bechgyn yn gamp gyda chyfranogiad cynhwysfawr ar draws yr ysgolion cyfun. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd cyfranogiad y merched***

***Galw heb ei fodloni fesul Ardal***

| CAERDYDD | POWYS | GWYNEDD | SIR BENFRO | SIR FYNWY |
|---|---|---|---|---|
| 7% | 6% | 6% | 6% | 6% |

Dywedodd **37887** o ddisgyblion eu bod wedi cymryd rhan mewn hoci yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Cymerodd **2%** o ddisgyblion ysgol ran unwaith mewn lleoliad ysgol

Mwyaf poblogaidd ymhlith **MERCHED BLWYDDYN 6**

Roedd gan **5%** o ddisgyblion (16996) alw heb ei fodloni

Roedd gan **6%** o'r cyfranogwyr nam corfforol, ac roedd gan **13%** anabledd dysgu

Roedd gan **78%** o'r cyfranogwyr hoci ddiddordeb / hyder mewn rhoi cynnig ar chwaraeon eraill




**Parhaodd canolfan Hoci Cerdded Caerdydd i fod yn weithredol hyd at gyfnod y Nadolig gyda chefnogaeth a phartneriaeth y Loteri Genedlaethol a Chwaraeon Caerdydd. Nod y ganolfan oedd gwella cynhwysiant cymdeithasol a gweithgarwch ar ôl Covid drwy gynnal sesiwn hwyliog, hamddenol o hoci cerdded!**

Parhaodd Hoci Cymru i ddarparu adnoddau a chefnogaeth i glybiau ac Awdurdodau Lleol sefydlu a rhedeg canolfannau hoci cerdded gyda Dysynni yn cynnwys 16 o bobl yr wythnos ar gyfartaledd yn eu canolfan ac Aberystwyth yn croesawu 12 i 16 o aelodau yn gyson.

Gan symud i'r tymor nesaf byddwn yn parhau i ddarparu adnoddau perthnasol a chyfredol i sicrhau bod clybiau ac awdurdodau lleol yn gallu sefydlu sesiynau cynaliadwy a hwyliog i bawb eu mwynhau ledled Cymru.

"Y nod oedd gwella cynhwysiant cymdeithasol a gweithgarwch ar ôl Covid drwy gynnal sesiwn hwyliog, hamddenol o hoci cerdded"








# *Hockey* YOUNG AMBASSADORS

## Mae 133 o lysgenhadon hoci ifanc ledled Cymru, sy'n cynrychioli:

SCHOOL
**52**
**O YSGOLION**

**7**
**O GOLEGAU**

**2**
**BRIFYSGOL**

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU
**34**
**O GLYBIAU HOCI**

## The breakdown of the 131 HYA's are:

**6**
**PLATINWM**

**11**
**AUR**

**37**
**ARIAN**

**79**
**EFYDD**

**Dechreuodd y Rhaglen Llysgenhadon Hoci Ifanc yn 2012 fel rhan o Waddol Olympaidd Hoci Cymru i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth heddiw.**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Llysgenhadon Hoci Ifanc wedi cofnodi 910 o oriau ac wedi rhoi llais i bobl ifanc mewn hoci ledled Cymru. Mae'r rhaglen wedi helpu i ddatblygu hyder, hyfforddi, dyfarnu a chyflogadwyedd unigolion drwy nifer o weithdai, digwyddiadau a chyfleoedd i ymarfer eu sgiliau. Mae cyfleoedd wedi bod yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac ar draws Ewrop. Mae Hoci Cymru yn gyffrous i fod yn anfon 2 arweinydd hoci i Ŵyl Ieuenctid Ffederasiwn Hoci Ewrop 2023 ym Monchengladbach, lle gallant feithrin cysylltiadau â chymdeithasau hoci eraill a datblygu eu hunain ymhellach.

# SIOE DEITHIOL HOOKED ON HOCI GENEDLAETHOL

**174**
o Ysgolion Cynradd yn Cymryd Rhan

**1218**
o Ddisgyblion Cynradd yn Cymryd Rhan
(Bechgyn a Merched 7 i 11 oed)

**51**
o Ysgolion Uwchradd yn Cymryd Rhan

**357**
o Ddisgyblion Uwchradd yn Cymryd Rhan
(Bechgyn a Merched 12 i 16 oed)

**225**
Cyfanswm yr Ysgolion a Gymerodd Ran

**1575**
o Ddisgyblion Wedi Cymryd Rhan Yn Gyffredinol

**17** o Ysgolion Cynradd Wedi Cymryd Rhan yn y Rhaglen Hooked on Hoci

**9** o Ysgolion Uwchradd Wedi Cymryd Rhan yn y Rhaglen Hooked on Hoci

**7**
o Glybiau Wedi Cymryd Rhan yn y Sioe Deithiol

**121**
o Arweinwyr Cymwys i Hwyluso'r Sioe Deithiol

**29**
o Wyliau Wedi'u Cyflwyno Ledled Cymru

**19**
o Siroedd Wedi Derbyn Ymweliad Ledled Cymru

**15%**
o Ysgolion Wedi Ymgysylltu yng Nghymru

**58 HRS**
o Gyflwyno Gwyliau

Mae'r manylion uchod yn tynnu sylw at yr Gwyliau Hoci i Ysgolion a gynhaliwyd ledled Cymru yn ystod 22/23.

# CYFLAWNI POTENSIAL






# UCHAFBWYNTIAU CYFLAWNI POSIBL

**Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur arall o weithgarwch i'n holl dimau ni ac, wrth gwrs, yn gylch o fath gan gloi gyda'r Gemau Cymanwlad diweddaraf yn Birmingham yn Haf 2022. I'n grŵp dynion ni, gohiriwyd y diwedd cyfnod hwn nes i'r tîm gymryd rhan yn eu hymgyrch hanesyddol cyntaf yng Nghwpan y Byd yn India ym mis Ionawr 2023, ond mae'r misoedd diwethaf wedi cynnwys adlewyrchu ac adolygu cyn i bob grŵp edrych ymlaen unwaith eto at fod yn ôl yn rhan o fwrlwm y cystadlu yr haf yma a'r hyn sydd tu hwnt i hynny.**

Yn strategol mae ein rhaglen Berfformiad bellach yn cyd-fynd â chynllun 4 blynedd a fydd yn gweithio o fewn cylchoedd Gemau'r Gymanwlad ac fel mae'n digwydd mae hefyd yn cyd-fynd â chylch Cwpan y Byd. Mae'r calendr Rhyngwladol yn dod yn un prysur iawn ar draws pob grŵp oedran ac felly mae'n gwneud synnwyr mewn nifer o agweddau i adeiladu ein sgwadiau hŷn tuag at gyrraedd a pherfformio yn y twrnameintiau lefel byd uchaf i Gymru, ac wrth gwrs parhau i ystyried ymrwymiadau cylch Olympaidd ein chwaraewyr ni ym Mhrydain Fawr a'n rhwymedigaethau cyfandirol. Mae cynllunio strategol yn y tymor hwy yn ein galluogi ni hefyd i amserlennu'n well y gweithgarwch yn ein rhaglenni pontio Llwybr ar draws y darn 4 blynedd, i gyfrif am Bencampwriaethau Ewropeaidd D18 a D21, cymhwyso i'r Cwpan y Byd Iau D21 a sicrhau bod chwaraewyr yn cael profi rhaglenni uwch mewn cyfnod ac nid bob amser o ran capasiti oedran i ganiatáu ar gyfer mwy o ymestyn a her yng nghyfnod datblygu'r chwaraewr.

Yn yr amser sy'n cael sylw yn yr adroddiad hwn rydyn ni hefyd wedi ffarwelio â nifer o chwaraewyr y rhaglen hŷn sydd wedi dod â'u gyrfaoedd Rhyngwladol i ben a hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniad dros gyfnod o amser, sydd wedi gweld cynnydd sylweddol gan ein timau hŷn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Maen nhw'n sicr wedi gadael y crys mewn lle gwell fel byddem yn ei ddweud ac felly diolch i'r canlynol... *James Fortnam, Jonny Gooch, Sophie Robinson, Natasha Fortnam, Julie Read, Sian French, Leah Wilkinson, Rose Thomas.*

Mae ein rhaglenni is-hŷn wedi gweld nifer o wahanol enwau ynghlwm wrthynt dros y blynyddoedd gan eu bod yn cynrychioli gwahanol gategorïau o chwaraewyr. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys chwaraewyr D21 sy'n gymwys o ran oedran ac mae gennym gystadleuaeth Ewropeaidd ar eu cyfer, chwaraewyr ystod oedran D23 lle mae cyfleoedd cystadleuol hefyd i'w cael a hefyd y rhai dros yr oedran hwnnw sydd ychydig y tu allan i'r garfan hŷn ond sydd â photensial o hyd i ddatblygu i fod yn chwaraewyr hŷn yn y dyfodol. Yn unol â'r cysylltiad â'r Ddraig a hefyd y dyhead i gofleidio mwy ar yr iaith Gymraeg, rydyn ni wedi ailenwi'r timau dynion a merched yma yn 'Dreigiau' yn ddiweddar.

Mae haf cyffrous o'n blaen ar gyfer ein sgwadiau rhaglen Grwpiau Oedran Cenedlaethol, gyda'r holl garfanau'n gallu cymryd rhan mewn rhyw gystadleuaeth




yn ystod haf 2023. Mae'r timau bechgyn a merched yn paratoi ar hyn o bryd ar gyfer y Pencampwriaethau Ewropeaidd D18, eu pencampwriaethau cyntaf ers 2019. Oherwydd COVID nid oedd posib i ni gystadlu yn y pencampwriaethau diwethaf, gyda'r rhai sydd heb eu dewis i dîm y twrnamaint yn parhau i allu cynrychioli Cymru yng Ngŵyl Dalent Hoci Lloegr. Y bonws ychwanegol i bawb sy'n ymwneud â'r Ewros yw ein bod yn ei chynnal yn Abertawe felly rydym yn gobeithio cael torf gartref swnllyd i gefnogi ein carfanau wrth i'r ddau dîm geisio brwydro am ddyrchafiad i adran 'A' Ewrop. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud ar holl waith cynllunio a chyflawni'r Llwybr yn ystod y flwyddyn a gobeithio y bydd posib dathlu'r holl waith caled ar bob lefel yn gadarnhaol ym mis Gorffennaf pan fyddwn ni i gyd yn dod at ein gilydd.

Hoffwn ddiolch i'r holl staff Perfformiad a Llwybr am eu gwaith caled gyda phob tîm a lefel Llwybr yn ystod y flwyddyn, mae eu hangerdd, eu gofal a'u hymrwymiad i'n chwaraewyr ni'n werthfawr ac, wrth gwrs, byddai'n esgeulus peidio â diolch i'r rhai sydd wedi bod gyda ni ond sydd wedi symud ymlaen am wahanol resymau, yn fwyaf nodedig Mark Mullineaux a fu'n cynorthwyo'r sefydliad am flynyddoedd lawer gyda'i arbenigedd Cryfder a Chyflyru a Gwyddoniaeth Chwaraeon. Mae ei ymadawiad yn gyfle i ni groesawu Henry Davies yn ei ôl, sy'n ailymuno fel Pennaeth Cryfder a Chyflyru, gyda Jonny Harper yn symud o fod yn Ffisiotherapydd y Merched Hŷn i rôl Pennaeth Meddygol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i ddau aelod hynod bwysig o'r tîm Perfformiad oherwydd hebddynt byddai'n amhosibl cyflawni popeth rydym yn ei wneud: ymunodd Ella Jackson â ni ym mis Mehefin 2022 fel Rheolwr Llwybr a Chydymffurfiaeth ac mae wedi cael effaith ar unwaith gyda'i gwaith ac, ar hyn o bryd, mae'n ymwneud â chynllunio ar gyfer gwelliannau pellach i'r Llwybr Chwaraewyr. Mae Steph Bullen fel Cydlynydd Perfformiad wedi cael blwyddyn brysur iawn hefyd, gyda dau dwrnamaint hŷn yr haf y llynedd yn ogystal â Phencampwriaethau Ewropeaidd D21 i roi trefn ar y logisteg ar eu cyfer. Fel pe na bai hynny'n ddigon, roedd gan Gwpan y Byd y dynion nifer o heriau logistaidd i'w datrys, yn enwedig gan ei fod yn cael ei chwarae ar draws dau leoliad gwahanol. Roedd rhaid i'r tîm deithio yn ôl ac ymlaen ac fe wnaeth waith anhygoel i garfan y dynion.


Rydw i'n edrych ymlaen at weld nifer fawr o deulu Hoci Cymru dros y misoedd nesaf felly mwynhewch yr Hoci fydd yn cael ei arddangos gan ein timau ni!










# HOCI PRYDAIN FAWR

**Wrth i'n rhaglen Genedlaethol ni barhau i esblygu a symud ymlaen, mae'n wych gweld ein chwaraewyr gorau ni'n parhau i sicrhau cydnabyddiaeth gyda Phrydain Fawr. Gyda 9 chwaraewr wedi bod drwy'r trawsnewid hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'n amlwg flwyddyn ar ôl blwyddyn bod y niferoedd yn cynyddu i'r cyfeiriad cywir.**

Mae ein chwaraewyr hŷn ni ym Mhrydain Fawr wedi bod yn setlo'n ddiweddar i weithgarwch y Gynghrair Broffesiynol ar ôl llawer o ymrwymiadau gwledydd cartref yn 2022 a dechrau 2023 a byddant yn edrych ymlaen at chwarae o flaen torfeydd cartref pan fydd y bwrlwm yn dychwelyd i lannau Prydain ym misoedd Mai a Mehefin 2023. Bydd ein chwaraewyr ni ar y rhaglenni hyn yn gobeithio adeiladu tuag at Baris 2024 a chynhyrchu rhai perfformiadau cenedlaethol da cyn dychwelyd i raglenni'r gwledydd cartref.

Llongyfarchiadau i Fred Newbold a oedd yn rhan o dîm D21 Prydain Fawr a enillodd fedal Efydd yng Nghwpan flynyddol Swltan Johor ym Malaysia ym mis Hydref 2022, yn dilyn traddodiad hir o chwaraewyr a hyfforddwyr o Gymru sydd wedi mynychu'r digwyddiad mawreddog hwn.

Da iawn i Fred a Millie Holme a gadwodd eu lle yn rhaglen EDP Prydain Fawr ar gyfer 2023 ac mae Betsan Thomas wedi ymuno â hwy, yn goron ar flwyddyn wych o fod yn rhan o Gwpan Iau'r Byd, adran 'A' D21 Ewrop ac mae wedi'i chynnwys yn ddiweddar yng ngharfan merched Hŷn Cymru am y tro cyntaf.

Yn olaf, fel rhan o fenter newydd ar draws Llwybr merched Prydain Fawr yn unig ar hyn o bryd, dewiswyd dwy o'n chwaraewyr NAGs, Jemima Robinson ac Emily Savastano, i fynychu gwersyll Llwybr Prydain Fawr ym mis Chwefror 2023, lle cawsant hyfforddi ochr yn ochr â thalentau iau'r gwledydd cartref eraill, sgwadiau Hŷn Prydain Fawr ac EDP i gynorthwyo gyda'u datblygiad. Y gobaith yw y bydd y rhaglen hon yn parhau yn ystod y blynyddoedd i gysylltu'r gwledydd cartref gyda'i gilydd y tu hwnt i weithgarwch safonol a hanesyddol Prydain Fawr.

**Dynion Hŷn Prydain Fawr:**
Toby Reynolds-Cotterill
Rupert Shipperley
Jacob Draper

**Merched Hŷn Prydain Fawr:**
Sarah Jones

**Dynion Rhaglen Datblygiad Elitaidd Prydain Fawr:**
Fred Newbold

**Merched Rhaglen Datblygiad Elitaidd Prydain Fawr:**
Millie Holme
Betsan Thomas

**Gwersyll Llwybr Merched Prydain Fawr (yr unig fenter i Ferched – Chwefror 2023):**
Jemima Robinson
Emily Savastano



# DYNION A MERCHED HŶN

**Roedd Haf 2022 yn llawn paratoadau ar gyfer a chyflwyno Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham.** Dyma leoliad cyfarwydd i lawer o chwaraewyr a staff ond wedi'i gynllunio er hynny mewn ffordd ddymunol yn weledol ac yn gweddu i'r gravitas sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad. Mwynhaodd y timau eu cyfres gemau prawf, rhywedd ar y cyd, gyntaf ers cyn cof gartref yn erbyn De Affrica mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn wych ac a ddaeth â gwres yr haf a rhagor o wres wedyn i Erddi Sophia, a thorfeydd mawr. Daeth cyfres 3 gêm y merched i ben gyda chanlyniad 1-1 ar draws y gyfres, gyda'r ddau dîm yn ennill gêm yr un a gêm gyfartal yn eu gwahanu yn y gêm ganol. Y fuddugoliaeth yn y gêm gyntaf oedd y gêm gyntaf i ferched Cymru ei hennill yn erbyn eu gwrthwynebydd ers 1953 a chafodd ei ffrydio'n fyw gan y BBC a roddodd sylw i gemau cyntaf y gyfres ar y dydd Sadwrn. Er i'r dynion golli eu dwy gêm i dîm clinigol De Affrica a fyddai'n parhau i gael haf da fel grŵp, roedd ein dynion yn fodlon ar sut gwnaethant gystadlu ac roeddent yn gwybod bod llawer gwell i ddod gyda'r canlyniadau ac roedd y ddwy gêm yma'n gyflym iawn ac yn llawn sgiliau medrus y byddai unrhyw un oedd yn gwylio'n fyw wedi'u gwerthfawrogi'n llwyr.

Yn anffodus, gwelwyd dechrau Gemau'r Gymanwlad yn ailadrodd Gemau 2018 wrth i ni golli 2 chwaraewr i anaf yn y gêm gynhesu olaf yn y gwersyll, Joe Naughalty a Phoebe Richards y tro hwn, ac yn eu lle daeth Alf Dinnie ac Amy Burton. Bu'n rhaid i'r ddau deithio'n gyflym i'r Pentref cyn i ni orfod enwi ein 18 olaf. Y nod i'r ddau dîm oedd nid yn unig gwella ar eu safleoedd gorffen yn 2018 ond hefyd herio am y safle gorffen gorau erioed. Cyrhaeddodd y dynion y nod hwn gan orffen yn 6ed ac roedd dod yn 8fed yng nghystadleuaeth y merched yn golygu bod y merched yn gyfartal â'u safle gorffen gorau erioed yn 2010.

Yng nghystadleuaeth y dynion cawsom ddechrau gwych, gan chwalu Canada 5-1 yn y gêm agoriadol, gyda 4 gôl gan yr arbenigwr Gareth Furlong i fod 3-0 ar y blaen erbyn diwedd y chwarter 1af. Cafodd y dyrfa lawn wylio epig o gêm dynn wedyn wrth i'r tîm frwydro'n dda yn erbyn tîm y wlad gartref, Lloegr, gyda'r gêm yn 2-2 cyn i Loegr lwyddo i gipio'r gêm gyda 2 gôl hwyr. Dangosodd Cymru eu natur glinigol wrth drechu gwrthwynebydd heriol, Ghana, 6-1. Dangosodd Ghana fygythiad ar y bêl drwy gydol y Gemau cyn gorffen y grŵp drwy golli 4-1 i dîm da o India. Ar ôl sicrhau 3ydd safle yn y pŵl, cafodd y tîm chwarae am y 5ed/6ed safle a bu'n rhaid bodloni ar yr olaf ar ôl colli o drwch blewyn i Seland Newydd o 2-1. Profodd B2022 fod y grŵp hwn yn parhau i wneud cynnydd ac yn cystadlu â thimau sydd ar y brig ac roedd tystiolaeth unigol o hyn yn glir hefyd gyda 9 gôl Gareth Furlong yn ei wthio i fyny i gydradd ail ar restr prif sgorwyr y gystadleuaeth.

Er i'r merched orffen mewn safle gorau erioed ar y cyd, credadwy a bod yn hynod gystadleuol am gyfnodau mawr yn erbyn rhai timau mewn safleoedd uwch,



roedd teimlad sylfaenol o siom mewn ambell gêm lle cawsom gyfle i sgorio goliau'n gynnar. Ni chymerwyd y cyfleoedd yma, a allai fod wedi rhoi mwy o bwysau ar ein gwrthwynebwyr. Roedd y tîm yn rheoli'r hanner cyntaf yn y gêm agoriadol yn erbyn Canada sy'n ddetholyn uwch ac, a dweud y gwir, dylem fod wedi bod 3-0 ar y blaen cyn mynd 1-0 i lawr cyn hanner amser. Parhaodd y rhwystredigaethau hyn yn yr ail hanner wrth ildio 3 gôl arall heb ateb a threulio'r rhan fwyaf o'r ail hanner heb nifer llawn o chwaraewyr oherwydd gwaharddiadau cerdyn. Cafodd Cymru drafferth i roi India o dan unrhyw bwysau yng ngêm 2 a cholli 3-1, er gwaethaf tynnu gôl yn ôl ar ddiwedd chwarter 3 i wneud pethau'n ddiddorol cyn i India fynd ar y blaen eto yn y chwarter olaf. Cafwyd perfformiad llawer gwell mewn buddugoliaeth o 4-0 yn erbyn Ghana gan greu hyder ar gyfer gêm olaf y pŵl yn erbyn Lloegr a ddylai, unwaith eto, fod wedi gweld Cymru 2-0 ar y blaen gyda chyfleoedd clir yn cael eu colli cyn i Loegr allu sgorio eu hunain. Dangosodd enillwyr y gystadleuaeth yn y pen draw eu safon gyda chwarae agored clinigol a symudiadau gosod i orffen i ennill o 5-0. Roedd gorffeniad gorau erioed yn y glorian o hyd yn y gêm ddosbarthu olaf ond eto, er gwaethaf creu nifer o gyfleoedd da a gyda'r holl fetrigau ymosodol yn ffafrio Cymru, De Affrica sgoriodd yr unig gôl bwysig ar y sgorfwrdd gyda buddugoliaeth o 1-0 a Chymru'n gorfod bodloni ar orffen yn yr 8fed safle ar ôl addewid o fwy ar adegau penodol. Serch hynny, dangosodd y grŵp gynnydd eto gyda'u steil o chwarae a'u gallu i gystadlu yn erbyn timau mewn safleoedd uwch. Byddant yn canolbwyntio ar yr elfennau cadarnhaol sy'n rhan o hyn wrth iddynt barhau i ddatblygu eu gêm yn y tymor hwy.

Daeth haf y twrnameintiau i ben gyda gemau rhagbrofol Ewropeaidd i'r ddwy garfan a oedd yn anfaddeuol o ran eu hamseriad, yn cael eu cynnal bythefnos yn unig ar ôl Gemau'r Gymanwlad, ond yn garedicach o ran eu lleoliadau, gyda'r merched yn Durham, Lloegr a'r dynion yn Glasgow, yr Alban. I'r dynion, y nod oedd ennill y pŵl a chadw eu statws adran 'A', a gwnaethant hynny drwy drechu'r ddwy wlad safle is, y Swistir (8-0) a Gibraltar (7-0). Cyfyngodd hyn y ffocws ar gyfer eu gêm yn erbyn yr Alban, y daethant drwyddi gan ennill 1-0 mewn gêm glos yn ôl y disgwyl mewn gornest rhwng gwledydd cartref, a gôl gan Gareth Furlong yn gwahanu'r tîmau cartref.

I'r merched, roedd y realiti yn debyg, gofal yn y gemau yn erbyn y timau is eu safle ac fe wnaethant hynny yn briodol, gan ennill yn erbyn Slofacia 9-0 a Croatia 8-0 a cheisio tynnu'r tîm uwch i lawr am le yn adran 'A'. Yn anffodus, gan eu bod wedi gorffen yn y 4ydd safle ym Mhencampwriaethau Ewrop yn 2021, Lloegr oedd eu gwrthwynebwyr yn Durham i wneud y dasg yn anoddach fyth. Fe wnaeth perfformiad anhygoel o fywiog gadw Cymru yn y gêm tan yr ail hanner, oedd yn rhan o'r cynllun, ond eto dangosodd Lloegr eu hansawdd dan bwysau gan ennill 3-0 yn y diwedd a chadw eu safle yn adran 'A'.

Mae'r timau hŷn nawr yn edrych ymlaen at haf Ewropeaidd yn 2023 yn eu cystadlaethau priodol, i'r merched ym mis Gorffennaf ym Mhrâg, y Weriniaeth Tsiec, ac i'r dynion ym mis Awst ym Monchengladbach, yr Almaen.

# CERRIG MILLTIR

Cyflawnodd y chwaraewyr canlynol gerrig milltir personol sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd, felly hoffem eu llongyfarch...

## DYNION

**CAPIAU 1AF**
Gareth Griffiths

**50 O GAPIAU**
Ioan Wall
Hywel Jones

**100 O GAPIAU**
Dan Kyriakides
Dale Hutchinson
James Carson

**100 O GAPIAU CYFUN**
*(Cymru a Phrydain Fawr)*
Rupert Shipperley
Jacob Draper

## MERCHED

**CAPIAU 1AF**
Holly Munro
Rebecca Daniel

**50 O GAPIAU**
Sophie Robinson

**100 O GAPIAU**
Beth Bingham
Sarah Jones

**100 O GAPIAU CYFUN**
*(Cymru a Phrydain Fawr)*
Sarah Jones

**200 O GAPIAU CYFUN**
*(Cymru a Phrydain Fawr)*
Leah Wilkinson



# DYNION A MERCHED D23

**Er bod y ffocws gyda'n grŵp is-hŷn bob amser ar ddarparu cyfleoedd datblygu cyson i chwaraewyr rhyngwladol hŷn y dyfodol, y ffocws arall yn 2022 oedd cystadleuaeth Ewropeaidd ar gyfer chwaraewyr cymwys D21 oed, dan arweiniad y Prif Hyfforddwyr Martin Schouten (Dynion) a Walid Abdo (Merched).**

Llwyddodd y dynion i gyrraedd Adran 'B' yn y Weriniaeth Tsiec gydag Ian Haley yn camu i'r adwy fel Prif Hyfforddwr oherwydd bod Martin yng Ngemau'r Gymanwlad, yn gwybod y byddai'r 2 safle uchaf yn ennill dyrchafiad i adran 'A' ar gyfer 2024. Er gwaethaf anafiadau a salwch, cafwyd dechrau cadarnhaol, gan sicrhau buddugoliaeth o 2-1 yn erbyn y gwesteiwyr a 3-1 yn erbyn yr Eidal. Gan mai dim ond un pŵl oedd yno, roedd yn ornest gron i'r safleoedd uchaf ac, yn anffodus, collodd y dynion o drwch blewyn yn eu 3edd gêm yn erbyn Twrci 2-1 cyn dod yn ôl ar y trac i sicrhau gêm gyfartal 1-1 yn erbyn yr enillwyr yn y diwedd, Iwerddon. Gadawodd hyn gêm olaf dyngedfennol i'r tîm yn erbyn Gwlad Pwyl, gyda buddugoliaeth neu gêm gyfartal ei hangen i sicrhau'r ail safle hollbwysig, ond doedd pethau ddim i fod wrth i Wlad Pwyl hawlio'r gôl fuddugol yn y 52ain munud i adael Cymru heb y pwynt oedd arnynt ei angen i orffen yn y 2 uchaf. 3ydd safle clodwiw wrth ystyried eu bod wedi sicrhau dyrchafiad i'r adran hon ar ôl ennill yr adran 'C' 2019, ond rwy'n siŵr y byddant yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gyrraedd dros y llinell yn 2019 a sicrhau'r dyrchafiad hwnnw.

Roedd y merched yn edrych ymlaen at daith i Wlad Belg a Hoci D21 Adran 'A' yn yr hyn sydd wedi bod yn absenoldeb hir ar ôl ennill dyrchafiad o adran 'B' yn Nhwrci yn 2019 ond roeddent yn gwybod bod y gystadleuaeth mor galed ag y gallai fod i'r Prif Hyfforddwr Walid Abdo a'i chwaraewyr, mewn pŵl oedd yn cynnwys Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a Sbaen. Y gwir amdani oedd bod rhaid iddynt ddysgu cymaint ag y gallent o'r gemau grŵp a mynd â hyn i mewn i ail hanner y gystadleuaeth, mewn ymgais i gadw eu lle yn yr adran, a bu bron iddynt lwyddo. Dangosodd Sbaen (0-6), Gwlad Belg (0-10) a'r Iseldiroedd (0-11) eu safon i gyd ond fe lynodd y grŵp gyda'i gilydd ac at eu targed gan roi pob cyfle i'w hunain aros i fyny gyda buddugoliaeth ardderchog o 1-0 yn erbyn yr Alban yn y gyntaf o ddwy gêm ddosbarthu. Yn y gêm olaf yn erbyn Iwerddon roedd angen i'r tîm, fel eu cymheiriaid gwrywaidd, ennill neu gael gêm gyfartal i sicrhau eu safle yn yr adran unwaith eto ac roeddent ar y trywydd iawn i wneud hynny pan sgoriodd Eve Bowen yn y gêm ddi-sgôr cyn diwedd y 3ydd chwarter. Fodd bynnag, trodd dwy gôl gan Iwerddon yn y 10 munud olaf y canlyniad ar ei ben a chafodd Cymru eu hanfon i lawr yn y diwedd mewn cystadleuaeth agos. Mae'r tîm nawr yn gobeithio adeiladu eto i gynnal ymgyrch ddifrifol am ddyrchafiad yn 2024 ond gallant fod yn falch o'u hymdrechion wrth gystadlu unwaith eto ar y lefel uchaf ar y cyfandir..





# LLWYBR

**Yn ystod tymor 2022/2023, cafodd ein Llwybr gyda'i frand newydd ei weithredu am ei ail dymor. Roedd gennym ni 8 Canolfan Datblygiad y Ddraig Iau yn weithredol ledled Cymru gyda mwy na 200 o chwaraewyr iau wedi'u cofrestru ac 8 safle Canolfan Datblygiad y Ddraig arall gyda mwy na 220 o chwaraewyr wedi'u cofrestru.**

Fe wnaethom barhau gyda'n hyfforddwyr NAG yn darparu ar lefel Canolfannau Perfformiad Rhanbarthol a datblygu ein Partneriaethau RPC ymhellach gyda Phrifysgol Wrecsam, Prifysgol Met Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Croesawodd y tair canolfan 180 o chwaraewyr ac yn newydd ar gyfer tymor Llwybr 2022/2023 fe wnaethom gyflwyno cystadlaethau Canolfannau Perfformiad Rhanbarthol, lle daethom â'r tair canolfan at ei gilydd i chwarae gemau yn erbyn ei gilydd i ddod â chystadleuaeth a chwarae gemau yn rhan o'r amgylchedd hyfforddi. Roedd hyn hefyd yn caniatáu i hyfforddwyr pob canolfan weld y chwaraewyr ar draws pob canolfan ac yn helpu i arwain y dewis o NAGS.

Yn ystod y tymor hwn hefyd ailgyflwynwyd sesiynau 'rhieni nad ydynt yn berffaith' sy'n rhoi cymorth i rieni llwybr gyda chyfathrebu a rheoli heriau gwahanol yn uchelgeisiau chwaraeon eu plant. Mae hon yn fenter ar y cyd rhwng amrywiol Gyrff Rheoli Cenedlaethol ac mae'n cael ei chyflwyno gan diwtor allanol. Diolch yn fawr i holl chwaraewyr y llwybr, y rhieni a'r hyfforddwyr sy'n helpu i siapio tymor pleserus arall ar y llwybr. Ar ôl i dymor y llwybr ddod i ben, cynhelir cyfnod adolygu ar gyfer tymor 2023/2024.






# GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL

**Teithiodd ein carfanau D16 i'r Swistir ym mis Gorffennaf 2022 i gymryd rhan yn nhwrnamaint bob dwy flynedd 5'oedd Ewrop a gwneud yn dda iawn mewn fformat dyrys ac unigryw, gan ddysgu'n gyflym ac addasu'n dda. Gorffennodd bechgyn Lee Marshall yn y 5ed safle yn gyffredinol gan ddangos gwelliannau o gêm i gêm, a'r uchafbwynt oedd y gêm olaf oedd yn llawn cyffro a'r sgôr, 5-4, gyda'r enillydd yn hawlio'r clod ym munud olaf y chwarae. Daeth y merched, o dan arweiniad Mark Ramage, mor agos at fedal, gan golli'r gêm gynderfynol a'r fedal efydd mewn gornest saethu greulon, ond gadael gan orffen mewn safle hynod glodwiw yn y 4 uchaf. Rwy'n siŵr y bydd nifer o'r chwaraewyr hyn yn ymddangos yn y grwpiau D18 yn 2023 ac y byddant wedi dysgu llawer i symud ymlaen o'r profiad cynnar hwn o dwrnamaint.**

Daeth rhaglen Grwpiau Oedran Cenedlaethol 2022 i ben gyda thaith Erasmus am 11 diwrnod i'r Iseldiroedd gyda 18 o Fechgyn a 18 o Ferched yn profi diwylliant a hoci yn yr Iseldiroedd yn ogystal â hyfforddi a threulio amser gyda'i gilydd ar y cae ac oddi arno. Mae hwn yn gyfnod amhrisiadwy ac nid yw'n rhywbeth y gallwn ei gynnig yn aml i'n hathletwyr iau, fodd bynnag, diolch i gymorth ariannol gan brosiect Erasmus+ fe wnaeth alluogi'r chwaraewyr i chwarae hoci yn rhai o glybiau gorau'r Iseldiroedd a hefyd gwylio Tîm Cenedlaethol Dynion yr Iseldiroedd yn hyfforddi.

Yn dilyn y profiad hwn bu ein carfanau'n cystadlu yng Ngemau Ysgolion 2022 yn Loughborough. Cystadleuaeth aml-chwaraeon iau rhwng Lloegr, yr Alban, Ulster a Chymru yw'r Gemau Ysgolion a gafodd eu cynnal ym Mhrifysgol Loughborough. Anfonodd Cymru dîm bechgyn a merched ar gyfer cyfle arall i'n chwaraewyr ni fagu profiad a chymryd rhan mewn twrnamaint, sy'n bwysig ar gyfer eu datblygiad a'u mwynhad. Roedd amser a phrofiad taith Erasmus o fudd mawr i'r chwaraewyr a daethant adref wedi ennill yr Efydd yn y gystadleuaeth i'r Bechgyn a'r Merched. Diweddglo gwych i dymor rhyngwladol iau pleserus a heriol arall.

Ar ôl tymor rhyngwladol prysur arall i'n hathletwyr iau aeth y chwaraewyr NAG i mewn i'r flwyddyn asesu nesaf ar gyfer rhaglen 2023. Ar ôl cyfnod o hyfforddiant a chystadlaethau'r Ganolfan Perfformiad Rhanbarthol, dewiswyd 72 o chwaraewyr ym mis Ionawr ar gyfer Rhaglen NAGs 2023. Eleni gwelwyd newid yn rhaglen y Grwpiau Oedran Cenedlaethol a'r angen am sicrhau cydbwysedd gyda'r pwysau ariannol cynyddol mae pawb yn ei wynebu yn ystod cyfnod ansicr. Felly ni wnaethom gynnal rhaglen D16 a D18, ond eu cyfuno i gynnal Carfan Grŵp Oedran Cenedlaethol gyda 36 o chwaraewyr ar gyfer Bechgyn a Merched. Dechreuodd rhaglen NAGs 2023 gyda'n gwersyll Sefydlu ym mis Chwefror lle treuliodd y chwaraewyr lawer o amser ar y cae ac oddi arno, gan osod y sylfeini ar gyfer disgwyliadau a sut hoffent chwarae. Roedd hwn hefyd yn amser addysg pwysig gyda gweithdai gwrth-gyffuriau a chyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal hefyd. Bydd rhaglen 2023 yn gyfnod prysur arall i'n hathletwyr iau ni wrth iddynt baratoi ar gyfer Pencampwriaethau Ewropeaidd cartref ym mis Gorffennaf, Gŵyl Talent Hoci Lloegr ym mis Gorffennaf a phrosiect Erasmus arall ym mis Awst.

# STAFF CEFNOGI PERFFORMIAD

### DYNION HŶN

**Danny Newcombe**
*Prif Hyfforddwr y Dynion Hŷn*

**Will Packer**
*Rheolwr Rhaglen y Dynion Hŷn*

**Martin Schouten**
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Dynion Hŷn a Phrif Hyfforddwr Dynion y Dreigiau*

**Ian Haley**
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Dynion Hŷn*

**Gwyn Williams**
*Hyfforddwr Cefnogi'r Dynion Hŷn a Dynion y Dreigiau*

**Sam Rowe**
*Hyfforddwr a Dadansoddwr Cynorthwyol y Dynion Hŷn / Dynion y Dreigiau*

**Gemma Leahy**
*Ffisiotherapydd y Dynion Hŷn*

**Mitchell Walsh**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru'r Dynion Hŷn*

### MERCHED HŶN

**Kevin Johnson**
*Prif Hyfforddwr y Merched Hŷn*

**Rebecca Daniels**
*Rheolwr Rhaglen y Merched Hŷn*

**Walid Abdo**
*Hyfforddwr Cynorthwyol y Merched Hŷn a Phrif Hyfforddwr Merched y Dreigiau*

**Paul Edwards**
*Hyfforddwr Cynorthwyol Merched y Dreigiau*

**Jo Westwood**
*Hyfforddwr Cynorthwyol Merched y Dreigiau*

**Ruth Bowe**
*Ffisiotherapydd y Merched Hŷn*

**Rhianna Galvin**
*Dadansoddwr Perfformiad y Merched Hŷn*

**Liam Mickleburgh**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru y Merched Hŷn*

**Alyssa Mildenstein**
*Ffisiotherapydd Merched y Dreigiau*

### PERFORMANCE SUPPORT

**Henry Davies**
*Pennaeth Cryfder a Chyflyru*

**Jonny Harper**
*Pennaeth Gwasanaethau Meddygol*

**Tom Millington**
*Hyfforddwr Gôl-geidwaid y Dynion a'r Merched Hŷn*

### STAFF CEFNOGI'R LLWYBR

### BECHGYN GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL

**Mike Williamson**
*Prif Hyfforddwr*

**Shelley Robinson**
*Rheolwr Rhaglen*

**Luke Stone**
*Hyfforddwr Cynorthwyol*

**Mo Samak**
*Hyfforddwr Cynorthwyol*

**Dave Sharp**
*Hyfforddwr a Dadansoddwr Gôl-geidwaid*

**Connor Hetherton**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru*

### MERCHED GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL

**Elliot Foweraker**
*Prif Hyfforddwr*

**Sharon Smith**
*Rheolwr Rhaglen*

**Lauren Burrell**
*Hyfforddwr Cynorthwyol*

**Mark Ramage**
*Hyfforddwr Cynorthwyol*

**Adam Broomfield**
*Hyfforddwr a Dadansoddwr Gôl-geidwaid*

### CRONFA FFISIOTHERAPYDDION

**Carmen Ansley**

**Chelsie-Jane Mason**

**Cora Hogan**

**Ashleigh Abbott**

### HYFFORDDWYR CANOLFANNAU PERFFORMIAD RHANBARTHOL

**Felix Tyson**
*Hyfforddwr Merched y De*

**Adam Broomfield**
*Hyfforddwr Merched y De*

**Lee Marshall**
*Hyfforddwr Bechgyn y De*

**Brett Madden**
*Hyfforddwr Bechgyn a Merched y Gogledd*

**Tesni Galvin**
*Hyfforddwr Merched y De*

**Jasminder Singh**
*Hyfforddwr Bechgyn y De*

### HYFFORDDWYR CANOLFANNAU DATBLYGU'R DDRAIG

**Beth Wood**
*PH Canolfan Aberhonddu*

**Brett Madden**
*PH Canolfan Eirias*

**Matt Wilkinson**
*HC Canolfan Eirias*

**Tesni Galvin**
*HC Canolfan Abertawe*

**George Marshall**
*HC Canolfan Abertawe*

**Jasminder Singh**
*HC Canolfan PDC*

**George Riley**
*HC Canolfan PDC*

**Nick Fackrell**
*Cwmbran Centre HC*

**Lily Morgan**
*HC Canolfan Cwmbrân*

**Tom Williamson**
*PH Canolfan Wrecsam*

**Alex Jones**
*HC Canolfan Wrecsam*

**William Donsworth**
*PH Canolfan Caerdydd*

**James Tyson**
*HC Canolfan Caerdydd*

**Amelia Johnson**
*HC Canolfan Caerdydd*

### HYFFORDDWYR CANOLFAN DATBLYGU'R DDRAIG

**Beth Wood**
*PH Canolfan Aberhonddu*

**Abbie Davies**
*HC Canolfan Aberhonddu*

**Megan Langley**
*PH Canolfan Tre-gŵyr*

**Yasmin Marshall**
*HC Canolfan Tre-gŵyr*

**Jasminder Singh**
*PH Canolfan Sue Noakes*

**Jason Arnold**
*HC Canolfan Sue Noakes*

**Liam Wade**
*PH Canolfan Trefynwy*

**Liam Bell**
*PH Canolfan Yr Wyddgrug*

**Harry Thackray**
*HC Canolfan Yr Wyddgrug*

**Luke Edwards**
*HC Canolfan Yr Wyddgrug*


**Tom Wood**
*PH Canolfan Caerdydd*

***Emily Savastano***
*HC Canolfan Caerdydd*

**Matt Sears**
*HC Canolfan Caerdydd*

**Martyn Passmore**
*PH Canolfan Caerfyrddin*

# AMGYLCHEDD SY'N FFYNNU





# CYMDEITHAS DYFARNWYR HOCI CYMRU

**Mae 2022/2023 wedi bod yn dymor da arall i'n dyfarnwyr a'n swyddogion rhyngwladol. Roedd uchafbwyntiau FIH yn cynnwys penodi Chris Brewer (TO) a Cathy Wright (Dyfarnwr Merched) i Gemau'r Gymanwlad yn Birmingham a Cathy hefyd a benodwyd i Gwpan Byd Hoci Dan Do y Merched FIH yn Pretoria (De Affrica) ym mis Chwefror. Roedd uchafbwyntiau EHF yn cynnwys penodi Linda Treharne (TO) ac Abby MacArthur (Dyfarnwr) i Bencampwriaeth Dan Do'r Merched yn yr Almaen ym mis Rhagfyr, a Vicki Skinner-Allen (Lester bellach) yn cael ei phenodiad EHF cyntaf yn y Swistir ar gyfer y Bencampwriaeth lau Dan Do.**

Yn anffodus mae'n ymddangos ein bod wedi gweld cynnydd yn nifer y cardiau coch sy'n cael eu dyfarnu i chwaraewyr am gam-drin dyfarnwyr y tymor hwn, sy'n annerbyniol, gan fod ceisio dod o hyd i wirfoddolwyr i ddyfarnu gemau eisoes yn waith digon anodd. Felly, i gefnogi ein dyfarnwyr byddwn yn edrych ar ein rheoliadau disgyblu a byddwn yn rhoi cynlluniau ar waith mewn pryd ar gyfer y tymor newydd i fynd i'r afael â hyn.

Drwy gydol yr haf ac ar ddechrau'r tymor nesaf byddwn yn ymdrechu'n galed i adnabod y dyfarnwyr hynny sydd, ar adegau, yn fodlon camu o'u clybiau i gymryd penodiadau niwtral yng Nghymru, nid yn unig gemau cynghrair rhanbarthol ond hefyd gemau cwpan o fewn y strwythur cystadlu cenedlaethol. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn penodiadau niwtral, mynegwch ddiddordeb drwy e-bostio Umpires@hockeywales.org.uk

Fe wnaethom gyflwyno 5 cwrs Lefel 1 ar-lein y tymor hwn yn cynnwys 60 o ymgeiswyr. Llongyfarchiadau i'r 27 o ddyfarnwyr rhannol gymwys a gafodd eu hasesu'n llwyddiannus ac sydd bellach yn ddyfarnwyr Lefel 1 â chymwysterau llawn.

Hoffem ddiolch i'n holl ddyfarnwyr a swyddogion am eu hymdrechion yn ystod y tymor a dymunwn y gorau iddynt gyda'u penodiadau yn y dyfodol, ar ba bynnag lefel maent yn gwasanaethu.



**PENODIADAU'R FFEDERASIWN HOCI RHYNGWLADOL (FIH).**

**Twrnamaint Gwadd y Dynion FIH-4 (Zagreb, Croatia), 24-26 Mehefin 22**

Christian Phillips-Adams, *Dyfarnwr Niwtral*

**Twrnamaint Gwadd y Dynion FIH-4 (Glasgow, yr Alban), 29 Mehefin-3 Gorffennaf 22**

Kevin Roberts, *Dyfarnwr Cenedlaethol*

**FIH-EuroHockey ID (Amsterdam, Yr Iseldiroedd), 7-10 Gorffennaf 22**

Harri Evans, *Swyddog Technegol*
Chloe Jordan, *Beirniad*

**Gemau Prawf y Merched FIH - Cymru v RSA (Caerdydd, Cymru), 16-19 Gorffennaf 22**

Lesley Bayne, *Swyddog Technegol*
Chris Brewer, *Swyddog Technegol*
John Taylor, *Swyddog Technegol*
Linda Treharne, *Swyddog Technegol*
Clare Barwood, *Dyfarnwr*
Christian Phillips-Adams, *Dyfarnwr*
Cathy Wright, *Dyfarnwr*
Luke Rees, *Dyfarnwr*
Toni-Lee Lambert, *Dyfarnwr*

**Gemau Prawf y Dynion FIH - Cymru v RSA (Caerdydd, Cymru), 16-17 Gorffennaf 22**

Lesley Bayne, *Swyddog Technegol*
Chris Brewer, *Swyddog Technegol*
John Taylor, *Swyddog Technegol*
Linda Treharne, *Swyddog Technegol*
Christian Phillips-Adams, *Dyfarnwr*
Kevin Roberts, *Dyfarnwr*
Luke Rees, *Dyfarnwr*

**Gemau Cymanwlad FIH - Merched (Birmingham, Lloegr), 19 Gorffennaf-8 Awst 22**

Chris Brewer, *Swyddog Technegol*
Cathy Wright, *Dyfarnwr*

**Gemau Cymanwlad FIH - Dynion (Birmingham, Lloegr), 19 Gorffennaf - 8 Awst 22**

Chris Brewer, *Swyddog Technegol*

**Cwpan Hoci Dan Do y Byd y Merched FIF (Pretoria, De Affrica), 5-11 Chwefror 23**

Cathy Wright, *Dyfarnwre*

**PENODIADAU FFEDERASIWN HOCI EWROP (EHF)**

**12 Olaf EHL Awyr Agored y Dynion EHF (Amsterdam), 13-18 Ebrill 22**

Chris Brewer, *Cynrychiolydd Technegol*

**8 Olaf EHL Awyr Agored y Merched EHF (Amsterdam), 14-18 Ebrill 22**

Chris Brewer, *Cynrychiolydd Technegol*

**Tlws II Clwb EwroHoci Awyr Agored y Dynion EHF (Genefa), 3-6 Mehefin 22**

Jon McCall, *Dyfarnwr Cenedlaethol*

**Her I Clwb EwroHoci Awyr Agored y Dynion EHF (Copenhagen), 3-6 Mehefin 22**

Christian Phillips-Adams, *Dyfarnwr Cenedlaethol*

**Her II Clwb EwroHoci Awyr Agored y Merched EHF (Alanya, Twrci), 3-6 Mehefin 22**

Clare Barwood, *Dyfarnwr a Benodwyd gan EHF*

**Her III Clwb EwroHoci Awyr Agored y Merched EHF (Alanya, Twrci), 8-11 Mehefin 22**

Chloe McCall, *Dyfarnwr Cenedlaethol*

**5'oedd EwroHoci Awyr Agored y Dynion EHF D16 (Basel, Y Swistir), 6-9 Gorffennaf 22**

Karen Evans, *Rheolwr Ddyfarnwr*
Jonathan Goold, *Dyfarnwr Cenedlaethole*

**5'oedd EwroHoci Awyr Agored y Merched EHF D16 (Basel, Y Swistir), 6-9 Gorffennaf 22**

Karen Evans, *Rheolwr Ddyfarnwr*
Megan James, *Dyfarnwr Cenedlaethol*

**Her I Clwb EwroHoci Dan Do EHF (Skierniewice, Gwlad Pwyl), 17-19 Chwef 23**

Karen Evans, *Rheolwr Ddyfarnwr*



# CYFLEUSTERAU

**Roedd blwyddyn ariannol 2022/23 yn flwyddyn gymharol lwyddiannus i Hoci Cymru o ran ei bartneriaeth waith gyda Chwaraeon Cymru, URC a CBDC ar Grŵp Cydweithredu Cyfleusterau Cymru Gyfan.**

Rydyn ni wedi gweithio'n galed i ymgynghori ag awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau hamdden a pherchnogion cyfleusterau i ddeall anghenion ehangach Cyfleusterau Hoci mewn cymunedau ledled Cymru. Mae hon yn ffactor hollbwysig yn ein gallu ni i hyrwyddo Hoci ledled Cymru, ond mae'r tirlun hefyd yn creu darlun sy'n dangos bod angen i ni fel Corff Rheoli Cenedlaethol addasu ein dull o ddefnyddio Hoci i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.


Yn strategol, gydag ehangu ar y llwybr newydd yn 2023/24, bydd angen o leiaf un cyfleuster Hoci hygyrch, penodol ym mhob awdurdod lleol, ac rydyn ni un cam oddi wrth gwblhau hyn, gyda Blaenau Gwent yr unig awdurdod lleol heb gyfleuster o'r fath ar hyn o bryd. O safbwynt cymunedol, mae angen i ni ddiogelu'r safleoedd hynny sydd gennym ni ar hyn o bryd, ac atal y broses o drawsnewid y cyfleusterau hoci presennol yn gaeau 3G. Mae'r tirlun presennol, pe bai pob cae'n cael ei gadw, yn darparu ar gyfer y galw domestig presennol ar draws y gêm gymunedol, ond os ydyn ni am herio'r cyrff rheoli mwy am gaeau ychwanegol, mae angen i ni ddangos tystiolaeth o greu mwy o alw o fewn elfennau ymgysylltu ein camp. Dyma lle mae angen i ni fod yn ddoethach a defnyddio'r cyfleusterau eraill ledled Cymru, neuaddau chwaraeon dan do, CTAau maint bach a hyd yn oed caeau 3G araf i gyflwyno fformatau syml o'r gêm sy'n syml yn cael ffyn yn nwylo chwaraewyr y dyfodol.

O ran Datblygiadau Newydd, cytunwyd i fuddsoddi mwy na **£1.73 miliwn** mewn prosiectau Hoci yn ystod y deuddeg mis nesaf, gyda phedwar wyneb newydd a dau brosiect newydd yn cael eu datblygu. Rydym yn gyffrous i weld arwyneb newydd ar safle Elba yn Nhre-gŵyr, diolch i bartneriaeth gyda Chyngor Abertawe a Freedom Leisure. Bydd hyn yn adnewyddu safle sy'n cael defnydd da yng Ngogledd Abertawe. Mae Astro Canolfan Hamdden Trefynwy yn cael ei newid hefyd, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Fynwy, gan y bydd y lleoliad hwnnw'n diogelu hoci domestig yng Ngogledd Sir Fynwy, yn enwedig ar adeg pan fo safle newydd ysgol y Brenin Harri yn cael ei ddatblygu hefyd yn y Fenni. Mae arwyneb newydd yn cael ei osod hefyd yn Nyffryn Tywi, gan fod yr arwyneb yn Nhre-gib yn cael ei uwchraddio yn dilyn codi arian sylweddol gan grwpiau cymunedol lleol yn Llandeilo, ac mae'r uwchraddio terfynol wedi'i leoli ym Merthyr, gan y bydd prosiect ehangach yn ysgol Cyfarthfa yn gweld y cyfleuster Hoci yn cael ei adnewyddu gydag arwyneb newydd. Bydd pob un o'r safleoedd hyn yn hanfodol ar gyfer gallu Hoci Cymru i ddarparu cyfleoedd hoci mwy deniadol a hygyrch i blant oedran ysgol ledled Cymru.

Mewn mannau eraill, mae arwynebau newydd yn cael eu gosod yn nau ben y wlad. Bydd cyfleuster hoci newydd gyda llifoleuadau yn cael ei adeiladu yn ysgol y Bont-faen, gan gynorthwyo gyda chyflwyno gweithgareddau cwricwlaidd yn ystod y dydd, ac agor cyfleoedd cymunedol pellach gyda'r nos. Gellir dweud yr un peth am Ynys Môn, lle bydd prosiect tebyg yn cael ei gwblhau yn Ysgol Uwchradd Bodedern, ac ochr yn ochr â mynediad y cytunwyd arno i'r arwyneb yn RAF Fali, bydd hoci yn dod yn fwy hygyrch yn y Gogledd Orllewin pell.

Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, bydd Hoci Cymru yn parhau i weithio gyda'r rhwydwaith o awdurdodau lleol a darparwyr hamdden i sicrhau bod y caeau presennol sydd ag ôl traul yn cael eu huwchraddio, a bod safleoedd allweddol heb fawr o fynediad at safleoedd maint llawn yn cael eu targedu. Mae trafodaethau ar y gweill eisoes ledled Ceredigion, Powys, Gwynedd a Blaenau Gwent.

# CYFRANOGIAD





# MEISTRI CYMRU - DYNION: 1 EBRILL 2022 - 31 MAWRTH 2023

Parhaodd y pandemig i effeithio ar dymor 2022/23 o ganlyniad i chwaraewr positif am covid, diffyg argaeledd a phroblemau parhaus gwaeth na phroblemau cyhyrau a llinyn y gar cyn covid. Fodd bynnag, chwaraeodd ein holl grwpiau oedran ni mewn twrnameintiau rhyngwladol a mynychodd y Dreigiau nifer o ddigwyddiadau hefyd..

Roedd yr uchafbwyntiau yn troi o gwmpas y garfan Dros 70 ar ddechrau a diwedd y tymor yn y Cwpanau Celtaidd a Chwpan y Byd a'r Dros 55 yn eu Cwpan y Byd. Mae'r tymor rhyngwladol yn cael ei grynhoi isod mewn trefn gronolegol..

### CWPAN CELTAIDD, ABERDEEN, EBRILL 2022

Mae'r grŵp o chwaraewyr sydd bellach yn graidd i'r garfan Dros 70 wedi ennill y Cwpan Celtaidd bob blwyddyn ers 2016 (ac eithrio 2020 pan na chafodd ei chwarae). Mae hwn yn gyflawniad nodedig a gellir ei weld fel gosod y sylfaen ar gyfer llwyddiant yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn.

**Dros 70:** v yr Alban 3-0, v Iwerddon 3-0, Safle - 1af

**Dros 65:** v Iwerddon 0-2, v Ffrainc 3-0, v Yr Alban 0-6, Safle - 3ydd.

**Dros 60:** v Iwerddon 2-1, v Yr Alban 0-2, Safle - 2il.

### PRYDAIN FAWR AC IWERDDON, 4 GWLAD, SOUTHGATE, MAI 2022

**Dros 70:** v Lloegr 1-5, v Iwerddon 2-0, Safle - 2il.

**Dros 65:** v Lloegr 0-5, v Yr Alban 0-1, v Iwerddon 3-2, Safle - 3ydd.

**Dros 60:** v Lloegr 0-3, v Yr Alban 0-2, v Iwerddon 0-0, Safle - 3ydd.

### PRYDAIN FAWR AC IWERDDON, 4 GWLAD, CAEREDIN, MAI 2022

**Dros 40:** v Yr Alban 3-2, v Iwerddon 0-3, v Lloegr 1-5, Safle - 3ydd.

**Dros 50:** v Yr Alban 1-5, v Iwerddon 0-1, v Lloegr 1-2, Safle - 4ydd.

### PRYDAIN FAWR AC IWERDDON, 4 GWLAD, ABERTAWE, MEHEFIN 2022

**Dros 35:** v Lloegr 2-7, v Yr Alban 3-5, v Iwerddon 1-3, Safle - 4ydd.

**Dros 45:** v Lloegr 1-9, v Yr Alban 2-2, v Iwerddon 1-4, Safle - 4ydd.

**Dros 55:** v Lloegr 1-5, v Yr Alban 2-2, v Iwerddon 2-1, Safle - 3ydd.

### CWPAN Y BYD, NOTTINGHAM, AWST 2022

**Dros 35:** Pŵl v Yr Alban 1-6, v Yr Almaen 0-3, v Yr Ariannin 1-2, v Iwerddon 1-4, Gêm Ail Gyfle v Sri Lanka 11-0, Safle - 9fed allan o 10.

**Dros 40:** Pŵl v Ffrainc 2-5, Lloegr 0-5, Sri Lanka 12-1, De Affrica 2-3, Yr Almaen 2-5, Iwerddon 2-2, Gêm Ail Gyfle v Yr Alban 3-2, Safle - 11eg allan o 14.

### CWPAN Y BYD, CAPE TOWN, HYDREF 2022

**Dros 50:** Pŵl v Malaysia 1-1, v UDA 2-0, v Lloegr 0-9, v Singapore 5-0, v Yr Almaen 0-11, Gêm Ail Gyfle v Yr Ariannin 0-2, Safle - 8fed allan o 14.

**Dros 55:** Pŵl v Lloegr 0-3, v Yr Ariannin 2-1, v UDA 2-1, v Malaysia 2-0, Gêm gynderfynol v Yr Iseldiroedd 0-2, 3ydd / 4ydd v Yr Almaen 1-1 (1-2 saethu o'r smotyn), Safle - 4ydd allan o 11.

Roedd hwn yn berfformiad gwych gan y garfan Dros 55, oedd yn cynnwys 2 x Dros 60. Ar ôl colli i Loegr, trechu'r Ariannin, UDA a Malaysia fu eu hanes i sicrhau eu lle am y tro cyntaf erioed yn y rownd gynderfynol yn erbyn yr Iseldiroedd. Collodd Cymru 2-0 mewn gêm galed a wynebu'r Almaen am y fedal Efydd. Arweiniodd Cymru nes i'r Almaen ddod yn gyfartal gyda 5 munud i fynd i'w gwneud hi'n 1-1. Enillodd yr Almaen 2-1 ar shyfflau, oedd yn ddadleuol, gan ei bod yn edrych fel petai'r shyffl fuddugol wedi croesi'r llinell ar ôl y terfyn amser ond, serch hynny, roedd yn dipyn o gamp i Gymru. Gyda charfan gymharol ifanc yn gyffredinol, mae hon yn sylfaen wych i adeiladu arni ar gyfer Pencampwriaeth Ewrop 2023 yn Valencia.



***Carfan fuddugol Dros 70 Cwpan y Byd yn Tokyo:*** *Rhes gefn, chwith i'r dde: David Richards, Richard Harbottle, Pali Sumar, Jeff Robinson, Derek Wright, John Smith, Antony Wyatt, Ian Johnson, Narinder Lota. Rhes ganol: Karen Padmore (Rheolwr), Roger Harris, Richard Chapman (Capten), Peter Havlin, Andy Mitchell (Hyfforddwr). Rhes flaen: Philip Wheater, Dave Tipper (Gôl-geidwad), Peter Williams, Malcolm Padmore, Nigel Montgomery, Phil Withers*

**CWPAN Y BYD, TOKYO, HYDREF 2022**

Yn anffodus, roedd ansicrwydd covid yma ac yn Japan a diffyg argaeledd chwaraewyr ehangach yn golygu na allai ein timau Dros 60, 65 a 75 greu carfan ond fe chwifiodd y tîm Dros 70 faner Cymru gyda balchder a chodi proffil hoci Meistri Cymru ymhellach ar lefel y byd.

Creodd Dynion Dros 70 Cymru hanes, gan ennill aur yng Nghwpan y Byd Meistri Hoci Dros 70 2022 yn Tokyo. Dyma'r tro cyntaf i unrhyw dîm Meistri o Gymru hawlio teitl Pencampwyr y Byd. Cafodd y garfan o 18 dwrnamaint gwych yn gyffredinol, gan golli dim ond un gêm i Dde Affrica (yr aethon nhw ymlaen i'w trechu yn y rownd derfynol) yn y gemau pŵl. Wrth chwarae yn stadiwm hoci Olympaidd Tokyo 2020, cawsant ddechrau gwych gan ennill eu gêm agoriadol (nad oedd yn rhyngwladol) 5-0 yn erbyn tîm Alliance 70s Spirit of Masters. Eu colled gyntaf a'u hunig golled ddaeth nesaf, 1-2 yn erbyn De Affrica, cyn iddynt sicrhau buddugoliaeth fawr o 13-0 yn erbyn 70s SoM Japan i orffen yn ail yn eu pŵl. Gan herio Japan yn y rownd gynderfynol, brwydrodd y tîm Dros 70 yn galed i ddod yn ôl o 0-2 hanner amser i sicrhau buddugoliaeth o 3-2. Richard Harbottle sgoriodd bob un o'r tair gôl i Gymru, gyda'r gôl olaf, fuddugol yn dod yn nhri munud olaf y chwarae.

Gyda De Affrica wedi curo Awstralia yn yr ail rownd gynderfynol, cyfarfu Cymru â De Affrica eto yn rownd derfynol Cwpan y Byd ar ddydd Sadwrn 29ain Hydref. Wedi dysgu gwersi gwerthfawr o'u trechu yn y gemau pŵl, fe wnaeth amddiffyn tynn Cymru, rheolaeth ddisgybledig yng nghanol cae, a bygythiadau ymosod niferus atal De Affrica rhag chwarae eu gêm. Cafodd Cymru eu gwobrwyo'n gyflym am ddilyn cynllun gêm yr hyfforddwr Andy Mitchell gyda Nigel Montgomery yn eu rhoi 1-0 ar y blaen yn y chwarter cyntaf. Wrth i'r hanner cyntaf ddod i ben, rhoddodd Derek Wright eu hail gôl i Gymru a chlustog cyfforddus ar gyfer gweddill y gêm. Gan reoli'r ail hanner i gadw dalen lân, fe drechodd Cymru Dde Affrica o 2-0 i gael eu coroni'n Bencampwyr Byd Hoci'r Meistri Dros 70 2022.

Dros 75 Cymru – yn dilyn eu lansiad swyddogol yn 2021, roedd yn siomedig na chwaraewyd unrhyw gemau rhyngwladol yn 2022 – does dim twrnamaint Prydain Fawr ac Iwerddon Dros 75 hyd yma ac nid oeddent yn gallu cael digon o chwaraewyr ar gyfer Cwpan y Byd yn Tokyo. Fodd bynnag, mae rhaglen iach o gemau cyfeillgar wedi cadw'r ysbryd yn uchel ac mae Cymru'n mynd i gystadlu ym Mhencampwriaethau Ewropeaidd 2023 yn Valencia.

**Dreigiau Cymru**

Bu tîm Dros 70 Dreigiau Cymru yn cystadlu yn nhwrnamaint Ysbryd y Meistri blynyddol Thistles yn Dundee ym mis Awst 2022 gyda chanlyniadau a oedd yn cynnwys buddugoliaeth bleserus dros dîm Dros 65 Iwerddon.

Dychwelodd y tîm 60+, oedd ddim yn cynnwys unrhyw chwaraewr iau na 64 oed ac yn cynnwys Glyn Thomas y Gôl-geidwad sy'n 82 oed, at fuddugoliaethau yn Nhwrnamaint Lefi Jacques yn Lille ym mis Mawrth 2023. Ar ôl colli yn y rownd derfynol gyda saethu o'r smotyn yn 2022, cafwyd perfformiad cyffrous gan y Dreigiau i drechu Eryrod hynod gystadleuol yr Almaen yn y rownd derfynol o 2-1.

Beth bynnag oedd y canlyniadau, y neges glir o dymor 2022 oedd ein bod ni'n symud tuag at normalrwydd ôl-covid, yn chwarae mewn twrnameintiau rhyngwladol neu gyfeillgar, ac yn mwynhau cystadlu a chyfeillgarwch gwych hoci'r Meistri.

*Jeff Robinson.*




# MEISTRI CYMRU – MERCHED

**Mae gan dimau meistri'r merched Hyfforddwr a Rheolwr ac mewn llawer o achosion ceir hyfforddwyr cynorthwyol. Ceir cydlynydd Meistri a Phrif Hyfforddwr sydd ill dau yn darparu cefnogaeth i bob grŵp oedran. Rydym yn parhau i gael cefnogaeth wych gan Ddyfarnwyr, TO's, Meddygon ac ystadegwyr ac yn y gorffennol roedd rhaid i ni fynd allan i chwilio am wirfoddolwyr ond rydym yn gweld fwyfwy eu bod yn dod atom ni gan fod cymaint o ddyhead i gymryd rhan.**

Dechreuodd tymor meistri'r Merched ar gyfer 2022 yn 2021 gyda'r rheolwyr a'r hyfforddwyr yn parhau â threialon a dethol gan weithio o fewn rheolau COVID, a oedd yn llacio'n wahanol, yn dibynnu ar ble roeddech yn byw, a oedd yn eithaf anodd i'r chwaraewyr yn mynychu treialon. Er gwaethaf hyn, roedd gennym bresenoldeb da mewn treialon ar gyfer pob grŵp oedran. Gyda'r carfanau wedi'u dewis, dechreuodd yr ymarfer a'r gemau cynhesu wrth i'r carfanau baratoi ar gyfer y twrnameintiau rhyngwladol.

Cynhaliwyd gornest y Gwledydd Cartref yn Nottingham ym mis Mehefin 2022, gyda'r wybodaeth mai hon fyddai'r ornest gwledydd cartref olaf gyda'r holl grwpiau oedran merched gyda'i gilydd. Mae hyn oherwydd y ffaith bod Hoci'r Meistri'n tyfu mor gyflym ac ychydig iawn o leoliadau ar draws y 4 gwlad sy'n gallu darparu ar gyfer y nifer cynyddol o grwpiau oedran. Roedd hwn yn dwrnamaint llwyddiannus gyda Chymru'n sicrhau mwy o fuddugoliaethau ar draws y grwpiau oedran nag mewn unrhyw dwrnamaint 4 gwlad arall.

Roedd hoci meistri'r byd eisoes wedi gwneud y penderfyniad i rannu grwpiau oedran, felly cynhaliwyd cwpanau'r Byd yn Nottingham ar gyfer y 35'au a'r 40au gyda'r 45'au, y 50'au, y 55'au a'r 60'au yn Cape Town De Affrica.

Yn anffodus, oherwydd yr hinsawdd yn dod allan o COVID a'r ofn o hyd o ran sut roedd COVID yn cael ei reoli mewn gwledydd eraill, dim ond dau dîm y gwnaethom lwyddo i'w hanfon i Cape Town, 55'au a 60'au.

Chwaraewyd twrnamaint Cwpan y Byd y 35'au a'r 40'au yn Nottingham ym mis Awst 2022. Roedd yn dwrnamaint ardderchog i'r ddau dîm gyda'r 40'au yn agos iawn at gêm i gipio medal a'r 35'au yn hawlio medal efydd ac yn sicrhau eu gorffeniad gorau hyd yma.

Cynhaliwyd twrnamaint Cwpan y Byd y 55'au a'r 60'au yn Cape Town ym mis Hydref 2022 ac unwaith eto cafodd y ddau dîm dwrnamaint ardderchog gan orffen yn uwch i fyny'r tabl nag erioed o'r blaen ar gyfer y grwpiau oedran hynny ond, yn anffodus, methu cipio medalau.

Mae meistri'r merched yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan Hoci Cymru ac mae'r gefnogaeth hon yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae pob carfan merched yn gwisgo'r un cit â thîm hŷn Cymru ac mae hyn yn creu teimlad da o Gynhwysiant ymhlith y timau.




# CYSTADLAETHAU 2022/2023

## CYSTADLAETHAU CLWB

Merched Dan Do
*Penarth*

Dynion Dan Do
*Caerdydd a'r Met*

Pencampwriaeth y Merched
*Howardian*

Pencampwriaeth y Dynion
*Caerdydd a'r Met*

Tlws y Merched
*Seintiau'r Eglwys Newydd*

Tlws Dynion
*Gwent*

Her y Merched
*Dinas Bangor*

Her y Dynion
*Caerdydd a'r Met*

Meistri'r Merched
*Caerdydd a'r Met*

Meistri'r Dynion
*Pen-y-bont ar Ogwr*

## CYSTADLAETHAU IEUENCTID

Merched D18 – *Abertawe*
Bechgyn D18 – *Yr Eglwys Newydd*
Merched D16 – *Penarth*
Bechgyn D16 – *Gwent*
Merched D14 – *Penarth*
Bechgyn D14 – *Gwent*
Merched D12 – *Yr Eglwys Newydd*
Bechgyn D12 – *Yr Eglwys Newydd*

## CYSTADLAETHAU EWROHOCI

Tlws II Clwb EwroHoci Dynion Awyr Agored 2022 – Genefa (SUI),
*Caerdydd a'r Met, 1af*

Her I Clwb Awyr Agored EwroHoci Dynion 2022 – Copenhagen (DEN),
*Yr Eglwys Newydd, 5ed*

Her III Clwb Awyr Agored EwroHoci Merched 2022 – Alanya (TUR),
*Abertawe, 1af, Gwent, 3ydd*

Her II Clwb Dan Do EwroHoci Dynion 2023 – heb ei chynnal,
*Caerdydd a'r Met*

Tlws Clwb Dan Do EwroHoci Merched 2023 – Cambrai (FRA),
*Abertawe, 8fed*

## CYSTADLAETHAU YSGOLION

Merched Ysgol D18
*Ysgol Bro Morgannwg*

Bechgyn Ysgol D18
*Rydal Penrhos*

Merched Ysgol D16
*Ysgol Bro Morgannwg*

Bechgyn Ysgol D16
*Rydal Penrhos*

Merched Ysgol D14
*Ysgol y Gadeirlan*

Bechgyn Ysgol D14
*Ysgol Gyfun Bishopston*

Merched Ysgol D12
*Ysgol Glantaf*

Plât Merched Ysgol D12
*Rydal Penrhos*

U12 Schoolboys
*Ysgol Penweddig*

## PRIF YSTADEGAU CYSTADLAETHAU 2022/2023

| CYFANSWM Y CYSTADLAETHAU A GYDLYNWYD | NIFER Y TIMAU A GYSTADLODD | NIFER Y CHWARAEWYR A GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 25 | 322 | 5,066 | 403 | 14,135 |


## PRIF YSTADEGAU CLYBIAU 2022/2023

| CYFANSWM Y CYSTADLAETHAU A GYDLYNWYD | NIFER Y TIMAU A GYSTADLODD | NIFER Y CHWARAEWYR A GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 18 | 143 | 2,380 | 228 | 9,670 |

## PRIF YSTADEGAU YSGOLION 2022/2023

| CYFANSWM Y CYSTADLAETHAU A GYDLYNWYD | NIFER Y TIMAU A GYSTADLODD | NIFER Y CHWARAEWYR A GYMERODD RAN | NIFER Y GEMAU A GYNHYRCHWYD | CYFANSWM Y MUNUDAU O HOCI |
|---|---|---|---|---|
| 9 | 179 | 2,686 | 175 | 4,465 |

# PARTNERIAETHAU



# PARTNERIAID

**Hoffem ddiolch i'n Partneriaid, ein Cyflenwyr a'n Noddwyr am eu cefnogaeth**

## PARTNERIAID SWYDDOGOL

## CYFLENWYR SWYDDOGOL

## RHANDDEILIAID SWYDDOGOL

**DIOLCH YN FAWR IAWN i Irfon Bennett, y dyn tu ôl i'r camera, sy'n parhau i ddefnyddio ei sgiliau ffotograffiaeth i ddal yr eiliadau arbennig hynny**

## CEFNOGAETH

Menter Gŵyl Ysgolion HC: Ysgol Gynradd Gors (CH Abertawe), Ysgol Crist y Gair (CH Rhyl a'r Fro), Ysgol Y Preseli (CH Emlyn) ac Ysgol Uwchradd Aberteifi (CH Emlyn)

**254**

**O AELODAU**

## RAFFL FISOL

**48** RAFFLAU GWOBRAU MISOL

**35** ENILLWYR UNIGOL

**13** ENILLWYR CLWB

Cefnogir Cyfeillion Hoci Cymru fel elusen gyda'r cronfeydd canlynol:

Cronfa Dads Higgins

Cronfa Peter English ar gyfer Llysgenhadon Ifanc

Cronfa Alan Carter ar gyfer Dyfarnwyr a Swyddogion

Mae ein tudalen Facebook ni wedi cael ei **HOFFI 438 O WEITHIAU** ac **MAE GANDDI 454 O DDILYNWYR**

**Cyfeillion Hoci Cymru**

Mae gan ein cyfrif Twitter ni **327 O DDILYNWYR**

**@Friends of WH**

Mae gan ein cyfrif Instagram ni **354 O DDILYNWYR A 217 NEGES**

**friends_of_wh**

**www.friendsofwelshhockey.org.uk**

CRhif Elusen: 1140894

# MANYLION ARIANNOL

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# MANYLION ARIANNOL 2022–2023

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

**Cyfrifon blynyddol 2022/2023**

Bydd adroddiad llawn yn cael ei wneud yn y CC ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo'r cyfrifon, felly mae'r wybodaeth ganlynol yn grynodeb cyffredinol yn unig o'r flwyddyn ariannol yn seiliedig ar y cyfrifon drafft.

**Mantolen**

Gostyngodd y cronfeydd wrth gefn £25k i lefel o £159k oherwydd rhywfaint o wariant annisgwyl a heb ei gynllunio.

Diolch byth, rydym wedi cael tymor llawn am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, felly, yn ystod y flwyddyn flaenorol, gohiriwyd Grant Adfer Chwaraeon Cymru ac ni chafwyd unrhyw gyllid pellach o'r maes hwn. Derbyniwyd hysbysiad am Grant ychwanegol i gynorthwyo gyda'r cynnydd mewn costau byw gan Chwaraeon Cymru yn hwyr yn y flwyddyn ariannol sydd wedi'i ohirio tan 2023/24. Yr effaith arall ar y balans arian parod diwedd blwyddyn yw bod cyfran sylweddol o'r taliadau craidd yn 2021/22 gan ein hathletwyr rhyngwladol yn ymwneud ag ymrwymiadau 2022/23 wedi'u derbyn cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac felly wedi'u gohirio tan 2022/23.

Mae'r incwm arall a gariwyd drwodd ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys y 10% o ffioedd aelodaeth a gasglwyd rhwng 1 Medi a 31 Mawrth (fel y cytunwyd gyda'r Archwilwyr) o £15.7k, cyllid UK Sport heb ei ddefnyddio a grantiau eraill gwerth cyfanswm o tua £19k.

**Incwm a Gwariant**

Roedd y refeniw ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol ond wrth ystyried y Grant gohiriedig roedd cynnydd bychan yn gyffredinol.

Roedd yr aelodau'n bryderus y byddai'r cyllid sydd ei angen ar ein carfan Dynion Hŷn i fynychu Cwpan y Byd wedi golygu bod angen cyfraniad sylweddol gan y chwaraewyr eu hunain. Oherwydd haelioni sawl unigolyn ac yn arbennig Astudio yng Nghymru, y gwaith codi arian sydd wedi'i wneud, yn ogystal â grant sylweddol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, nid oedd angen unrhyw gyfraniad ychwanegol gan Hoci Cymru, er gwaethaf cynnydd cyffredinol o tua 30% mewn costau.

Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn y llinell Busnes Masnachol.

Gyda ffioedd llawn yn cael eu codi unwaith eto, ynghyd â chynnydd mewn ffioedd, roedd yr incwm cofrestru yn uwch na'r lefelau cyn COVID (2019/20 £121k, 2022/23 £156k).

Mae buddsoddiad wedi'i wneud mewn sawl system newydd gan gynnwys DocuSign, Sport 80 (aelodaeth), Dext ac Approval Max (dwy system ariannol), a bydd pob un ohonynt yn ein cynorthwyo ni i leihau ein hôl troed carbon drwy leihau argraffu a storio copi caled, a gwella ein heffeithlonrwydd a'n llywodraethu.

Roedd y gwariant heb ei gynllunio y cyfeirir ato uchod yn ymwneud â recriwtio ein Prif Swyddog Gweithredol newydd a chynnydd o tua 55% yn ein ffioedd archwilio (y cynnydd cyntaf ers penodi UHY Hacker Young). Mae Bwrdd Hoci Cymru yn ystyried y dyfnder sydd ei angen ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol a bydd yn penderfynu ar gamau gweithredu yn gynnar yn 2023/24.

Cyflwynir adroddiad llawn yn y Cyfarfod Cyffredinol ac erbyn hynny bydd y cyfrifon archwiliedig ar gael.

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

## DIOLCH YN FAWR

**Adroddiad Blynyddol Hoci Cymru 2022/23.**

**Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad ac i'r teulu hoci am eich cefnogaeth barhaus.**

Am fwy o wybodaeth neu i gymryd rhan ewch i:

**www.hockeywales.org.uk**

**@HockeyWales**

**@hockey_wales**

**@HockeyWales**

Neu anfonwch e-bost atom ni ar: **info@hockeywales.org.uk**

**Hoci Cymru**
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.